TGAU

**3010NB0-1**

**DYDD LLUN, 6 MEHEFIN 2022 – PRYNHAWN**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 2: Y Nofel

## HAEN UWCH

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

© WJEC CBAC Cyf.

JD*(Z22-3010NB0-1-MLP-A3-36)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 4 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.**

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.**

**(Trowch y dudalen)**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan.
Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

**NOFELAU** **TUDALEN**

| | |
|---|---|
| AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones) | 5 |
| I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn) | 11 |
| LLYFR GLAS NEBO (Manon Steffan Ros) | 17 |
| DIM (Dafydd Chilton) | 23 |
| YN Y GWAED (Geraint Vaughan Jones) | 29 |
| O RAN (Mererid Hopwood) | 36 |

(Trowch y dudalen)

# AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – ALUN JONES

1. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

1.1 **Trafodwch gymeriad GLADYS a sut mae'n DATBLYGU yn y nofel. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

(Trowch y dudalen)

**1.2 Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 7 – 10.**
**Sut awyrgylch sydd yn y darn?**
**Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**1.3 Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn marwolaeth Richard Jones.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

(Trowch y dudalen)

Pan ddaeth yn chwarter wedi deg, cododd Gareth ac aeth allan i'r cefn. Cerddodd i ben draw'r ardd a dringodd dros y clawdd i'r cae. Ni welai fawr ddim. Cerddodd yn gyflym gyda'r clawdd i gornel y cae, ac i fyny wedyn gyda'r clawdd arall. Aeth dros y gwrych yn ddistaw a gofalus. Cerddodd i fyny'r cae nesaf a chyrraedd Llwybr Uwchlaw'r Môr. Teimlai'r niwl yn llenwi ei ysgyfaint. Aeth ar hyd y llwybr yn araf tuag at y ffordd fawr, ac arhosodd yn stond pan ddaeth o fewn cyrraedd i'r ffordd.

Edrychodd o'i amgylch mewn penbleth, ac aeth ymlaen yn araf ar flaenau ei draed. Nid oedd neb yno. Doedd bosib bod Wil Garej wedi methu. Yna, yr oedd wedi cyrraedd y llidiart. Nid oedd Huw Gwastad Hir ar y cyfyl.

(Trowch y dudalen)

Wedi ei siomi, agorodd y llidiart yn ddistaw, ac aeth i'r ffordd fawr. Arhosodd yn sydyn i wrando, a daeth gwên fach i'w wyneb. Dros y clawdd yr ochr arall i'r ffordd deuai sŵn siarad a rhegi. Am newid ochr oedd Huw heno.

Cerddodd Gareth i fyny'r ffordd am dipyn cyn dringo dros y gwrych uchel i'r cae. Nid oedd neb o'r Cyngor Sir wedi morol am dorri'r gwrych, ac yr oedd y tyfiant trwchus wedi cadw llawer o'r glaw a ddisgynasai arno. Teimlai Gareth ei drowsus yn gwlychu drwyddo wrth iddo ymwthio dros y gwrych. Disgynnodd yn ddistaw i'r cae ac aeth i lawr ar ei gwrcwd, a chychwyn i lawr y cae gyda'r gwrych yn llechwraidd. Arhosodd pan glywodd arogl wisgi.

(Trowch y dudalen)

Cododd golau bychan coch tua phum llath o'i flaen, a chryfhaodd fel y tynnai Huw yn y sigarét. Aeth yn nes ato'n araf gan dynnu ei bastwn a'i hongian gerfydd ei strap ar ei arddwrn. Tynnodd y sachyn o'i boced a'i agor led y pen.

Daeth Huw i waelod y botel wisgi, a rhegodd. Taflodd y botel i lawr y cae.

"Reit, sgrimp," meddai'n ddigon uchel i Gareth ei glywed, "mae'n bryd iti ddŵad rŵan. Tyrd i nôl dy anga."

Tynnodd unwaith yn ei sigarét a lluchiodd hi dros ei ysgwydd. Cododd Gareth yn sydyn o'r tu ôl iddo a thaflodd y sach dros ei ben gan dynnu'r ddau ben llinyn yn dynn. Gwaeddodd Huw mewn dychryn, ond cyn iddo fedru dechrau dirnad beth a ddigwyddai yr oedd y pastwn wrth ei waith. Crafangodd Huw yn y sach i geisio'i gael i ffwrdd, ond gorfu

(Trowch y dudalen)

iddo dynnu ei ddwylo'n ôl i geisio'i amddiffyn ei hun. Disgynnai'r pastwn o bob cyfeiriad, ac yn raddol fe waniodd Huw a disgyn ar ei liniau. Ni fedrai wneud dim. Clywai'r heddwas sŵn crio yn y sach, a rhoes ei bastwn yn ôl yn ei drowsus. Amser dyrnu oedd hi'n awr. Agorodd y sach a'i dynnu i ffwrdd.

Bu tair dyrnod yn ddigon. Yr oedd fel dyrnu sachaid o goed tân. Ni fedrai Huw godi ei freichiau i'w amddiffyn ei hun, dim ond aros dan siglo ar ei liniau. Arhosodd Gareth i gael ei wynt ato, a disgynnodd Huw ar ei wyneb i'r ddaear, a llonyddodd. Nid oedd bwrpas yn y byd dyrnu rhagor arno.

(Trowch y dudalen)

# I BLE’R AETH HAUL Y BORE? – EIRUG WYN

**2. Atebwch y cwestiynau sy’n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu’n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o’r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**2.1 Trafodwch gymeriad CHICO a sut mae’n DATBLYGU yn y nofel. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

(Trowch y dudalen)

**2.2** **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 13 – 16.**
**Sut awyrgylch sydd yn y darn?**
**Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**2.3** **Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn Brwydr Ffort Defiance.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

(Trowch y dudalen)

Roedd Carleton wrth ei fodd. O’r diwedd roedd pethau’n dechrau symud yn eu blaenau.

“Cant a hanner o aceri! Faint sy ar ôl? E? Faint sy ar ôl?”

“Dim, syr.” Roedd ateb Carson yn syth, ac i’r pwynt. “Fydd gan y Navahos ddim grawn nac ŷd y gaea ’ma. Ar wahân i gynnyrch eu perllannau, a’r cig a gân’ nhw wrth hela, fydd ganddyn nhw ddim byd i’w cynnal.”

“Yipeee!”

Ond doedd Carson ddim yn rhannu brwdfrydedd ei bennaeth. Y fo oedd wedi awgrymu llosgi’r cnydau. Gwyddai yn ei galon na ellid ennill brwydr yn erbyn y Navahos yng Ngheunant de Chelley. Roedd rhannau o’r Ceunant yn codi’n waliau hyd at fil o droedfeddi o uchder, ac mewn mannau yn culhau i ychydig ddegau o

(Trowch y dudalen)

lathenni. Roedd yna ddegau o ogofâu ar y clogwyni. Petai'r Navahos yn dymuno hynny, gallent wrthsefyll byddin o rai cannoedd trwy osod gwylwyr gyda chreigiau a cherrig ar y waliau hynny a gallent ddal eu tir efallai am fisoedd ar y tro. Ond roedd hynny'n dibynnu ar gael digon o gynhaliaeth yn y Ceunant. Rŵan roedd stôr y gaeaf wedi diflannu ar un amrantiad. Gwyddai Carson y byddai'r ricos yn sicr o daro'n ôl a hynny'n galed.

"Fyddwn i ddim yn llawenhau yn rhy fuan, syr. Fe fydd yna hen ddial am hyn, ac fe ddaw yn gyflym."

"Ond fydd ganddyn nhw ddim bwyd dros y gaea! Bydd rhaid iddyn nhw ddod i mewn!"

"Neu…" Oedodd Carson cyn cwblhau'i frawddeg.

"Neu be?"

(Trowch y dudalen)

“Dwyn, syr.”

“Dwyn! O ble wnân nhw ddwyn? Ble o fewn cyrraedd i Geunant de Chelley mae yna ddigon o fwyd i fwydo llwyth cyfan?” Chwarddodd Carleton yn ei wyneb.

Daliodd Carson i edrych i fyw ei lygaid. Nid atebodd ei gwestiwn. Roedd Carleton yn dwp os nad oedd o wedi sylweddoli’r ateb. Yna gwawriodd yr ateb hwnnw arno.

“Yma? Wyt ti’n meddwl y dôn’ nhw yma?”

“Does dim sy’n gwneud i Indiad ymladd yn fwy na’r awch i’w fwydo’i hun a’i deulu.”

“Feiddian nhw ddim!”

“Os ydych chi’n dweud, syr!”

“Carson! Wyt ti’n meddwl y dôn’ nhw?”

(Trowch y dudalen)

“Fe fydd y llosgi wedi’u corddi nhw, syr. A rŵan yn ogystal â’r Navahos, fe fydd Geronimo a Cochise yn ddraenen ychwanegol yn ein hystlys, ac i Dicks y mae’r diolch am hynny!” Oedodd ennyd i’w ergyd gyrraedd ei nod cyn mynd rhagddo. “Roedd llosgi’u cynhaeaf yn weithred fawr yn eu herbyn, felly fe fyddan nhw’n chwilio am weithred fawr i dalu’r pwyth yn ôl.”

“Ac rwyt ti’n credu mai ymosod ar y Ffort a wnân nhw?”

“Pwy a ŵyr be wnân nhw, syr? Indiaid ydyn nhw – yr unig beth ydi, y tro hwn, maen nhw’n wahanol.”

“Yn wahanol? Be ti’n ’i feddwl?”

“Rŵan, maen nhw’n Indiaid sy wedi gwylltio, syr.”

(Trowch y dudalen)

# LLYFR GLAS NEBO – MANON STEFFAN ROS

**3.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**3.1** **Trafodwch gymeriad ROWENNA a sut mae'n DATBLYGU yn y nofel. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

(Trowch y dudalen)

**3.2** **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 19 – 22.
Sut awyrgylch sydd yn y darn?
Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**3.3** **Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn Y Terfyn.
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Yna, un bore, ar ôl cwpwl o wythnosau o ddyfrio a gwylio a dymuno, roedd ’na rywbeth yna. Rhyw gyrlen fach, fach o fywyd yn mentro bodoli, fflach fach o wyrdd golau, seren fach yn nhywyllwch llaith y pridd.

Dechrau rhywbeth.

Teimlais y wefr yn goleuo pob un rhan ohona i – balchder a llawenydd, a’r wyrth fy mod i, rywsut, wedi bod yn rhan o wneud i hyn ddigwydd. Y peth bendigedig yma. Dyma fi’n rhedeg i fyny’r grisiau at Mam, a’i hysgwyd hi.

‘Mam! Mam! Mae o wedi digwydd!’

Eisteddodd Mam i fyny ar ei hunion, heb roi amser iddi hi ei hun ddeffro yn iawn. ‘Be?’ gofynnodd, fel taswn i wedi deud rhywbeth mawr.

(Trowch y dudalen)

‘Yn y twnnel tyfu! Mae ’na foron yn tyfu! Go iawn!’

Ochneidiodd Mam yn uchel, a gorwedd yn ôl. Yna, trodd ataf i gyda gwên fawr a deud, ‘Wel. Ma hynny yn newyddion da. Da iawn chdi, ’raur.’

Dwi’n siŵr i mi ista yna drwy’r dydd, yn gwylio’r smotyn bach o wyrdd i weld beth oedd yn mynd i ddigwydd nesa. Daeth Mam â chadair allan i mi yn y diwedd, a blanced, er ei bod hi’n gynnes o hyd yn y twnnel tyfu. O fewn wythnos, roedd ’na resi o blanhigion bach, bach yn gwthio eu ffordd drwy’r pridd, a minna’n eu gwarchod nhw fel tasa…

Wel. O’n i’n mynd i sgwennu ‘fel tasa’n bywyda ni’n dibynnu arnyn nhw’, ond mae hynny’n wir, wrth gwrs. Dwi ddim yn meddwl ’mod i wedi sylweddoli hynny ar y pryd.

(Trowch y dudalen)

Mynnodd y planhigion fyw, drwy'r stormydd a'r gwyntoedd a'r glaw, drwy'r dyddia pan oedd Mam a finna'n rhy sâl i fynd allan i'w dyfrio a'u tendio nhw. Byddwn i'n siarad efo nhw, wrth gwrs, am 'mod i'n licio siarad a 'mod i'n teimlo fel tad iddyn nhw i gyd, mewn rhyw ffordd wirion.

A dyma i chi rywbeth arall. Ro'n i'n teimlo'n euog pan ddaeth hi i fedi'r cnydau. Codi'r tatws a'r moron o'r pridd, golchi'r baw i ffwrdd yn y nant, cymryd y gyllell fawr atyn nhw. Roedd y planhigion bach yna wedi cymryd mor hir i dyfu, wedi mynnu byw pan oedd gymaint o bethau'n marw. Ro'n i'n eu caru nhw, a do'n i ddim am gael eu gwared nhw.

'O'n i'n meddwl 'sat ti'n hapus i fod yn cael bwyta'r tatws cyntaf o'r ardd!' meddai Mam wrth i ni sefyll yn y twnnel tyfu un pnawn, y fforch

(Trowch y dudalen)

yn barod i godi’r tatws cyntaf. ‘Chdi dyfodd nhw, wedi’r cyfan. Ti ’di neud yn grêt, Sionyn.’

Llyncais a llyncais a llyncais, gan wneud fy ngorau i beidio crio. Do’n i ddim eisiau cyfaddef i Mam, ddim eisiau colli dagrau dros beth y gwyddwn ei fod o mor wirion.

Suddodd Mam i lawr ar ei chwrcwd, a mwytho fy wyneb yn ysgafn. Roedd hi’n arogli fel y mintys yn yr ardd.

‘Mae o’n anodd, mae’n siŵr. Eu bwyta nhw ar ôl i ti weithio mor galed i’w cadw nhw’n fyw.’

Nodiais, gan wybod y byswn i’n crio petawn i’n trio siarad.

(Trowch y dudalen)

## DIM – DAFYDD CHILTON

**4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**4.1 Trafodwch gymeriad OWAIN a sut mae'n DATBLYGU yn y nofel. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

(Trowch y dudalen)

**4.2** **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 25 – 28.**
**Sut awyrgylch sydd yn y darn?**
**Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**4.3** **Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn y cyfarfod am y maes carafannau.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Taflodd Gwyn y cwdyn te i'r tebot. "Bastad cynffonwyr fel George Thomas a Neil Kinnock yn creu bwganod. Ac yn hysio'r cyfryngau ar genedl o ŵyn oedd yn rhy blydi llywaeth i weld y celwydd."

Gadawodd Owain i'r awyrgylch dawelu ychydig. Yna gofynnodd,

"Be wyt ti'n meddwl o'r llosgi tai ha' 'ma sy 'di dechre?"

Ac arhosodd Gwyn ar ganol ei dasg. Am eiliad. Fel petai'n sydyn wedi sylwi ar rywbeth newydd, dieithr yn yr awyr o'i flaen. Gadawodd y te a throdd at y bwrdd mawr. Pwysodd ymlaen drosto a'i ddwy law'n fflat ar yr oelcloth patrymog oer. Roedd ofn, siom, dicter yn rhedeg ar draws ei gilydd dros ei wyneb, yn ei grychu, ei welwi, ei hagru. Edrychodd yn syth i lygaid ei frawd.

(Trowch y dudalen)

“Wedi dod ’ma fel plismon wyt ti ’nte? Gwas i’r Drefn. Hyd ’n oed heno.” Miniodd ei lygaid a phwysodd yn agosach. “Fuaset ti ’di dod i’r angladd o gwbwl, ’blaw bod gen t’isio’n holi i?” Edrychodd fel petai’n ceisio cael hyd i rywbeth yn wyneb ei frawd. Rhywbeth y gallai ei adnabod.

“Ai dyna i gyd yden ni i ti bellach? Y fi…” Pwniodd ei fys i gyfeiriad yr arch, “… a fo?”

Edrychodd Owain ar ei lobsgóws. Ar ei lwy a mân olion ei fwyta arni. Roedd y cig yn ei geg wedi troi’n lwmpyn sych. Llyncodd o a rhoi ei lwy i orwedd yn ymyl y bowlen. Yna cododd o’r bwrdd ac aeth at ei fag a’i siwt a’u codi, a throi am y cefn a’r staer i’r llofft.

“Wela i di’n y bore,” meddai heb edrych ar ei frawd ac yna, wrth fynd drwy’r drws, “Gad mi w’bod be fydd

(Trowch y dudalen)

angen i mi'i neud yn y gladdedigaeth."

Ac aeth.

Yn y llofft, wrth ddadwisgo, fe glywai Gwyn yn y gegin yn symud cadair ac yn eistedd. Clywai wich y gadair wrth iddo bwyso ymlaen a chnoc ddwbl dawel ei ddau benelin ar y bwrdd. Dychmygai o'n eistedd yno a'i ên ar ei ddyrnau yn syllu ar draws y gegin i'r tân. Neu ar arch Richard Lloyd.

Bu yno'n hir. Roedd Owain wedi mynd i'r gwely a chynhesu erbyn iddo glywed Gwyn yn symud unwaith eto. Clywodd o'n codi o'r bwrdd, ac yn estyn pethau o'r cwpwrdd ac o ddroriau ac o'r oergell. A sŵn torri bara, a berwi'r tegell a thollti. Ac yna sŵn twtio, diffodd y golau a chau drws y gegin. A dringo'r staer.

Daeth ei gamau ar draws y landin ac i lofft Owain.

(Trowch y dudalen)

Roedd Owain ar fin troi i wynebu beth bynnag oedd ar ddod pan glywodd osod rhywbeth yn ofalus ar y cwpwrdd yn ymyl ei wely. Erbyn iddo allu gweld beth oedd yno, roedd Gwyn wedi mynd ac wedi cau drws y llofft yn ddistaw ar ei ôl.

Ar hambwrdd ar y cwpwrdd, yn wyn yn y gwyll, roedd mygaid o de poeth a phlataid o frechdanau cig.

(Trowch y dudalen)

# YN Y GWAED – GERAINT VAUGHAN JONES

**5.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**5.1** **Trafodwch gymeriad MAM a sut mae'n DATBLYGU yn y nofel. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen.** **[20 marc]**

(Trowch y dudalen)

**5.2** **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 31 – 35.**
**Sut awyrgylch sydd yn y darn?**
**Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**5.3** **Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn llosgi Capel Gilgal.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Wrth nesáu at y grisiau cerrig teimlai Mared ofn gwirioneddol yn ei chalon. Roedd yn hen gyfarwydd â'r griddfan arferol o'r llofft stabal ond roedd crio heno'n wahanol ac yn llawer gwaeth na dim a glywsai o'r blaen. Be yn y byd oedd yn bod arno?

I wneud pethau'n waeth, fel roedd hi'n rhoi'i throed ar y ris gyntaf dechreuodd Mic udo wrth ei gadwyn. Doedd ganddi ddim cof am yr hen gi yn gwneud y fath sŵn arswydus erioed o'r blaen.

Taflodd gip pryderus o gwmpas y buarth rhag ofn bod dieithryn neu lwynog yn llechu yn y cysgodion ond wrth i'r lleuad ailymddangos o du ôl i gwmwl a golchi'r buarth â'i oleuni teimlodd Mared beth rhyddhad o weld yr olygfa gyfarwydd.

(Trowch y dudalen)

Parhau, fodd bynnag, a wnai'r oernadu o'r tu arall i'r drws wrth iddi ddringo'n araf. Wedi cyrraedd y ris uchaf oedodd eto i wrando, nid ar y sŵn a'i dychrynai ond yn hytrach am unrhyw arwydd o'r hyn oedd yn peri i Fo nadu fel y gwnâi. Llygoden fawr falla? Doedd wybod be.

Clustfeiniodd, ei chlust yn cyffwrdd pren y drws. Yr eiliad honno gostegodd y sŵn yn riddfan torcalonnus; enaid mewn purdan, ac ynddo a thrwyddo tybiai Mared glywed chwerthin cras, dihiwmor. Eiliad yn unig y parhaodd yr argraff ond bu'n ddigon i'w chalon golli curiad ac wedyn gyflymu'n ddireol.

Ymwrolodd. Twt, meddai wrthi'i hun, dwi'n hel meddylia gwirion. Llygodan fawr sy 'na ma'n siŵr a dwi'n hen gyfarwydd â'r rheini o gwmpas y lle 'ma.

(Trowch y dudalen)

Yn araf, estynnodd ei llaw at ymyl ucha’r drws. Roedd wedi’i folltio o hyd, y pâr yn ddiogel yn ei le fel y gadawsai hi ef ryw ddwyawr ynghynt. Doedd bosib bod neb arall i mewn yno felly.

Fel y meddyliai hynny dyma’r sŵn yn cynyddu eto fel pe bai’r truan yn llafarganu ei boen. Nadu ynfytyn lloerig.

Heb oedi mwy llithrodd Mared y bollt yn ôl a gwthio’r drws yn araf i mewn. Gwyddai wrth reddf ei fod yno yn y gornel gyferbyn yn swatio ar ei gwrcwd. Chwiliodd â’i llaw chwith am swits y golau cyn mentro i mewn.

Dim! Bylb wedi ffiwsio!

Ochneidiodd yn uchel ac ymwroli. Safodd ychydig o’r neilltu i rywfaint o loergan allu llifo heibio iddi.

A dyna lle’r oedd. Adyn truan mewn artaith o ofn, yn ymgreinio yn ei gornel, o’r golwg bron yn ei wallt a’i

(Trowch y dudalen)

farf ddilewyrch, ei lygaid yn rhwth a gwaedlyd, ei geg yn llydan agored, yn binc a glafoeriog a'r sŵn yn chwyddo'n undonog ddi-baid o'i wddf, yn fwy o gri anifail nag un dyn.

Camodd Mared i mewn i'r ystafell, ei hofn ar drai. Wedi'r cyfan, doedd yr olygfa ddim yn newydd iddi, dim ond lefel a natur y sŵn. Buan y medrai ei dawelu a'i lonyddu â gair o swcwr a chariad.

'Dyna ti. Pob dim yn iawn rŵan. Paid â chrio. Gad imi gydio'n dy law.'

Doedd y geiriau'n tycio dim. Nid oedd yn cymryd y sylw lleia ohoni.

'Ti'n iawn rŵan sti. Ma' Mared yma.'

Yn sydyn a chydag arswyd sylweddolodd nad arni hi yr oedd y llygaid mawr yn rhythu. Llifodd ton oer drosti. Roedd rhywbeth tu ôl iddi, tu ôl i'r drws agored. Cyn iddi fedru magu'r hyder i droi ailddechreuodd y

(Trowch y dudalen)

chwerthin cras, ysgafn a glywsai gynt a gwallgofodd y truan eto yn ei gongl.

O Dduw! meddyliodd. Mae o yma! Tu ôl imi!

Trodd i syllu’n syth i’r wên ddanheddog. Dewyrth Ifan! Yr eiliad nesaf roedd y rhith wedi toddi’n ddim.

(Trowch y dudalen)

## O RAN – MERERID HOPWOOD

6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

6.1 Trafodwch gymeriad IFAN GWYN a sut mae'n DATBLYGU yn y nofel. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]

(Trowch y dudalen)

**6.2** **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 38 – 41.**
**Sut awyrgylch sydd yn y darn?**
**Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**6.3** **Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Edrychais yn ôl i weld a oedd Anti June yn dilyn, a gwelais hi'n pwyso ar y barryn a'r bagiau ar lawr.

'Chi'n iawn, Anti June?'

'Ydw, cael rest fach, 'na i gyd.'

Doedd e ddim yn syniad da iawn i afael yn y barryn er ei fod yn help i'ch tynnu chi lan y llwybr serth. Roedd y barryn yn gadael gwynt drwg ar eich dwylo, yn enwedig yn yr haf. Gwynt haearn. A ta beth, roedd gen i ddau gwdyn ym mhob llaw a dim un llaw'n rhydd i ddal dim byd heddiw.

Ffordd hyn fydda i'n dod bob dydd i ddal y bws i'r ysgol fawr o fis Medi ymlaen, meddyliais.

Trois eto.

'Chi'n iawn, Anti June?'

Ond roedd Anti June ar ei chwrcwd yn eistedd yn y clawdd.

Rhedais yn ôl ati gan daflu'r siopa i'r llawr.

(Trowch y dudalen)

‘Anti June?’

Doedd Anti June ddim yn siarad. Roedd Anti June yn tynnu am anadl yn union fel y diwrnod hwnnw yn y gegin pan redais i mofyn Myng-gu o’r lein ddillad.

‘Anti June?’

Amneidiodd â’i llaw i ddweud yn llipa ei bod hi’n iawn a rhwng yr anadlu swnllyd llwyddodd i roi hanner gwên a dweud yn dawel, dawel, ‘Y pwmp.

’A’r tro yma roeddwn i’n gwybod yn union am beth i chwilio. Edrychais drwy’r siopa am ei hambag. Edrychais eto, yn gynt y tro hwn.

‘Anti June?’ Panic. ‘Ble mae’ch hambag chi?’

Roedd Anti June yn ymladd ormod â’i hanadl i chwilio.

Doedd yr hambag ddim yna.

(Trowch y dudalen)

Tynnais bopeth yn wyllt o’r bagiau – dim hambag. Rhaid bod yr hambag ar y bws.

‘Anti June, Anti June, peidiwch symud, a’ i mofyn Myng-gu.’

Nodiodd ei phen, a dechreuais redeg. Rhedeg lan y llwybr, tua’r ffin a’r gornel. Rhedeg. Rhedeg nes bod y palmant yn neidio o’m traed i’m llygaid. Rhedeg nes bod y palmant yn atsain yn fy mhen a thrwy’r stryd ac o’r ded-end allan i’r byd. Rhedeg nes bod y palmant du yn troi’n goncrit llwyd ac yn llwybr ac yn troi mewn drwy’r gatiau bach du. Rhedeg drwy’r drws cefn ac i’r gegin, lle roedd Myng-gu yn golchi’r llawr.

‘Anti June,’ fi oedd yn brin o anal nawr, ‘Anti June, Myng-gu.’

Rhaid bod Dad wedi clywed y cynnwrf, synhwyro bod rhywbeth o’i le, a daeth o’r stydi fel corwynt.

(Trowch y dudalen)

‘Beth sy’n bod, Angharad fach?’

‘Anti June!’

‘Ble mae Anti June?’

‘Ar bwys y bys-stop.’

A dyma Dad yn rhedeg nerth ei goesau hir a Myng-gu a fi’n dilyn gore gallen ni’r holl ffordd lawr y stryd, yn ôl rownd cornel pob gwaharddiad a heibio’r ffin a lawr am y llwybr tu ôl i’r tai, a sodle bach twt Myng-gu’n morthwylio mil o hoelion yn y palmant.

Rwy’n cofio gweld Dad yn rhedeg allan i’r ffordd i stopio ceir, a chofio’i weld yn rhoi Anti June yng nghefn car rhyw Samariad Trugarog, fel y byddai Myng-gu’n dweud wedyn.

Trodd Dad a dweud wrth Myng-gu a fi i fynd yn ôl i’r tŷ.

DIWEDD Y PAPUR